


# **papur**



# **priordy**



**Mawl, mawl, doed mawr a mân  
I eilio cân i'r Baban glân;  
Mawl, mawl i'r Baban glân  
A gaed ym Methlem Jiwda.**

**leuan Gwyllt 1822-77**

*Gweler yr erthygl ar leuan Gwyllt y tu mewn*

**Rhifyn 361  
PAPUR RHAGFYR 2022**

## Gair gan ein Gweinidog

### Edau yn nhapestri'r Nadolig

**TYBED** a ydych chi wedi gosod addurniadau Nadolig yn eich cartref eto? Rydyn ni wedi cychwyn arni yn ein tŷ ni.



Pan fyddaf yn twrio drwy'r blwch addurniadau Nadolig bob blwyddyn, fe fyddai'n dod ar draws ambell addurn sy'n dod ag atgofion melys iawn i'r cof. Ambell addurn o ddyddiau fy mhlentynod, sy'n cael ei ystyried yn *retro* heddiw! Ambell addurn arall a grëwyd gan y plant yn yr ysgol gynradd neu yn yr Ysgol Sul. Ond bob blwyddyn fe fyddwn yn gosod addurniadau arbennig a grëwyd gan ddwylo medrus mam.

Roedd mam, fel ei mam hithau, yn wniadwraig arbennig iawn. Yn anffodus, mae'r ddawn

fel pe bai wedi neidio dros fy nghenhedlaeth i, ond mae Elin a Sara yn parhau'r traddodiad teuluol ac yn gallu creu pethau arbennig gyda nodwydd ac edau.

Wrth edrych ar ôl gwaith bysedd mam ar yr addurniadau Nadolig bob blwyddyn, fedra i fyth â pheidio â rhyfeddu at berffeithrwydd a chywreinder ei gwaith. Pob pwyth yn berffaith yn ei le yn dal holl dapestri stori'r Nadolig ynghyd.

Pan ystyriwn stori'r Nadolig cyntaf, mae llawer iawn o gymeriadau a golygfeydd yn perthyn iddi; Mair a Joseff yn gadel eu cartref ac yn mynd i Fethlehem i gofrestru, y stabl a'r anifeiliaid, y bugeiliaid a'r angylion, Herod a'r sêr ddewiniaid ... a chymaint mwy. Ond mae un cymeriad yn y stori sydd fel edau yn dal y



cwbl ynghyd, a lesu yw hwnnw. Ef yw'r llinyn arian yn nhapestri'r Nadolig sy'n tynnu'r holl olygfeydd ynghyd.

Erbyn heddiw, mae llawer mwy o olygfeydd a chymeriadau yn perthyn i ddathliadau'r Nadolig. Ond cofiwn bob amser, heb lesu, fe fyddai'r cwbl oll yn ymddatod a thapestri stori'r Nadolig yn peidio â bod.

**IE**, rhyw feddyliau fel 'na ddaeth i fi wrth dwrio drwy flwch yr addurniadau Nadolig eleni. Beth ddaeth i'ch meddwl chi tybed?

### **Gweddiwn**

Arglwydd, gweddiwn am dy gymorth  
i ddathlu'r ŵyl mewn modd gweddus a theilwng.



Gweddiwn ar ran cartrefi Cymru a chartrefi'r byd:  
boed i neges yr ŵyl dyneru calonnau,  
ennyn cariad ar aelwydydd,  
a gwneud cartrefi yn gysegrleoedd,  
am fod dy wenau di arnynt.

Cofiwn am y rhai sydd heb gysgod a chysur aelwyd,  
a'r miloedd sydd heb wlad i fyw ynddi:  
y ffoaduriaid sy'n heidio mewn gwersylloedd,  
yn wrthodedig, yn cael eu newynu neu'u lladd;  
boed i neges yr ŵyl beri i lywodraeth bwylllo  
a thosturio wrth drueiniaid ein byd.

Boed i ninnau, nefol Dad, feithrin cariad yn lle casineb,  
maddeuant yn lle dialedd,  
a thriged dy dangnefedd yn ein calonnau.

Yn enw Iesu Grist

**Amen**




**Cyfarchion yr Ŵyl**  
**Nadolig Llawn, diogel, iach a bendithiol i bawb o**  
**deulu'r Priordy**  
**oddi wrth**  
**Beti-Wyn, Elin a Sara**





| Rhagfyr                               | Darlleniad       |
|---------------------------------------|------------------|
| Wythnos 1                             | Luc 3: 1-6       |
| Wythnos 2                             | Luc 3: 7-18      |
| Wythnos 3                             | Luc 1: 39-55     |
| Noswl Nadolig                         | Ioan 1: 1-14     |
| Bore Nadolig                          | Luc 2: 1-20      |
| 26 Rhagfyr – Cofio Merthyrdod Steffan | Actau 6: 8-7; 60 |

**DIOLCH YN FAWR**  
*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*  
**DENNIS A RHIAN JONES**  
*at gyhoeddi'r Papur y mis hwn*



**CWRDD GWEDDI**  
**DECHRAU'R FLWYDDYN**  
**Nos Fercher 4 Ionawr 2023 am 7 dros Zoom**

**PANED A SGWRS**  
**Bore Mercher - 10.30**  
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**  
**18 Ionawr 2023**  
**15 Chwefror 2023**  
**22 Mawrth 2023**  
**26 Ebrill 2023**



**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**  
**(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )**

## **Nadolig yr Ofalaeth**



**Nos Sul 4 Rhagfyr  
am 5 yn y Priordy  
Oedfa dan Olau Cannwyll  
yng ngefal y Bobl Ifainc**



**Prynhawn Sul 11 Rhagfyr  
am 1 yng Nghana  
Gwasanaeth Nadolig a Pharti i ddilyn**

**Prynhawn Sul 11 Rhagfyr  
am 3 yn y Priordy  
Gwasanaeth Nadolig yr Eglwys  
Paned i ddilyn**

**Nos Sul, 11 Rhagfyr  
am 7.30 yn y Priordy  
Plygain Merched y Wawr**

**Bore Sul 18 Rhagfyr  
am 10 yng Nghana  
Oedfa Nadolig Undebol yr Ofalaeth  
Paned i ddilyn**

**Nos Sul 18 Rhagfyr  
am 6 ym Mancyfelin  
Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned  
Gorymdaith ac Oedfa – Paned / Parti i ddilyn**

**Bore Nadolig  
Oedfa Undebol yn y Priordy am 9 y bore**

**Radio Cymru  
Oedfa Bore Nadolig gyda Beti-Wyn a'r Criw Ifanc**

**AR Y WE: [www.priordy.org](http://www.priordy.org) (yn cynnwys Papur Priordy)**

## Luned Thomas...



### Nadolig fy Mhlentyndod

*FEL* y gŵyr rhai ohonoch chi eisoes fe'm ganed ac fe'm maged yn Llanddarog.

Roedd Nadolig yn ein tŷ ni yn

gyfnod prysur iawn, a chwbl ganolog i ni yn ystod dathliadau'r Ŵyl oedd gweithgareddau'r capel.



Byddai prysurdeb y Nadolig yn dechrau o ddifrif am wn i rywbryd ar ddechrau mis Tachwedd pan fyddai athrawon yr Ysgol Sul yn dechrau mynd ati i drefnu arlwy'r gyngerdd Nadolig a gâi ei chynnal yn ddiffael gyda'r hwyr ddydd Gŵyl San Steffan yn neuadd y pentre. Byddai pob dosbarth yn yr Ysgol Sul yn paratoi eitem, boed hynny yn sgets neu yn barti canu, a byddai nifer ohonom ni blant yn cael perfformio'n unigol gan ganu, adrodd neu ganu offeryn cerdd. Erbyn heddiw, go brin y byddai neb yn ei iawn bwyll yn meddwl bod trefnu cyngerdd ar ddydd Gŵyl San Steffan yn syniad da ond fel yna yr oedd hi am flynyddoedd yng **Nhapel Newydd Llanddarog**. Byddem ni'r plant yn ymgunnull yn neuadd y



pentre yn y prynhawn i ymarfer ar gyfer y gyngerdd yn yr hwyr dan ofal Mrs Marian Williams a Mrs Elinor Pearce. Mae fy nhad yn fy atgoffa o bryd i'w gilydd y byddai'r gyngerdd yn cael ei chynnal ar nos Nadolig pan oedd yntau'n blentyn, gydag Eglwys y plwyf yn cynnal ei chyngerdd hithau gyda'r hwyr drannoeth.

Ar noswyl Nadolig byddem yn galw gyda Mam-gu a'i dwy chwaer yng Nghefnethin i gyfnewid anrhegion. Un o'r anrhegion gorau i mi - ac roeddwn i wedi dwlu'n lân arni - oedd cael stopwatsh gan Anti Bess un flwyddyn gan fy mod yn argyhoeddedig fy mod yn mynd i gynrychioli Prydain yn y gêmau Olympaidd!



Ar y ffordd adref i Landdarog noswyl Nadolig byddem yn casglu modryb fy nhad – Anti Sarah - ym Mhorthyrhyd a ddeuai i aros atom ni am ychydig ddyddiau dros yr Ŵyl. Ar fore dydd Nadolig byddem fel teulu yn mynd i'r gwasanaeth cymun yn y Capel Newydd gan ganu carolau o ddetholiad lliw clawr pinc na welai olau dydd ond yn ystod ddydd 'Dolig. Nôl adre wedyn (ar ôl galw yn Afallon i weld anrhegion plant drws nesaf) i fwynhau cinio Nadolig blasus gyda'n gilydd.

Uchafbwynt y cinio bob tro pan oeddwn i'n blentyn oedd cael yfed tun cyfan o Coca Cola!

Mam-gu a'i chworydd yng Nghefnethin a fyddai bob amser yn darparu'r gacen a'r pwdinau Nadolig. Byddai'r tair yn neilltuo sawl diwrnod ym mis Tachwedd i baratoi'r danteithion. Byddai'r cynhwysion wedi eu prynu ar ddiwedd mis Hydref gan gynnwys digon o boteli o stowt i suddo bad. Roedd yr holl baratoi yn "*major operation*". Byddai'r pwdinau yn stemio ar y Rayburn yn eu cegin fach am hydoedd bwygilydd, onid dyddiau. Roedd y tair ohonynt wrth eu bodd yn paratoi tuag at y Nadolig a wastad yn hael iawn wrthym ni wyrion ac wyresau er bod y tair ohonynt yn gorfod byw a bod ar bensiwn bach y wlad.



Ar ôl prysurdeb y gyngerdd byddai athrawon yr Ysgol Sul yn paratoi parti i'r plant yn y festri rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Wrth i ni blant fynd yn hŷn gwnaethom gais mentrus un flwyddyn i gael caniatâd i drefnu disgo yn neuadd y pentref yn lle parti'r plant. Cafwyd cryn drafodaeth am hyn ymysg yr oedolion gydag ambell un yn gwrthwynebu'r cais yn chwyn ac rwy'n siŵr fy mod yn cofio rhyw

sylw a chyfeiriad at waith y diafol! Ond, yn y pen draw, llwyddwyd i gael caniatâd i gynnal y disgo ac aethom ati i drefnu disgo bythgofiadwy gyda goleuadau yn fflachio a'r trimings i gyd: gallech chi dyngu bod *Saturday Night Fever* yn Llanddarog! Ond nid dyna oedd y diwedd ar yr hwyl. Ar nos Galan byddem ni fel teulu yn mynd i gyngerdd Nadolig **Capel Bethlehem Porthyrhyd** lle byddai'r capel wastad dan ei sang.



**RHYW** Nadolig felly oedd fy mhлentyndod i, a chyfnod hapus iawn gydag atgofion melys am aelodau o'r teulu sydd bellach wedi ein gadael. Eleni, fodd bynnag, ni fydd cyfle i dywyllu'r un gyngerdd gan fy mod i a'r teulu am fynd i Center Parcs i ymlacio am ychydig ddyddiau rhwng y Dolig a'r flwyddyn newydd.






**Dewch i ganu gyda ffrindiau yn  
Neuadd Ddinesig San Pedr  
Nos Iau 15 Rhagfyr am 7.30**

**Carolau cyfarwydd yn  
Gymraeg ac yn Saesneg, gyda  
chyfeiliant gan Band Chwyth  
Symffonig Caerfyrddin**

**Gwin cynnes a mins peis**

**Cyflwynydd  
Peter Hughes Griffiths**

**GWAHODDIAD I YMUNO AG UNDEB ESGOBAETH TYDDEWI MEWN GORYMDAITH  
AR DDIWRNOD OLAF Y 16 DIWRNOD O ACTIFIAETH Y CENHEDLOEDD UNEDIG  
YN ERBYN TRAIS AR SAIL RHYW**



**Dydd Sadwrn 10 Rhagfyr 2022**

**Bydd yr orymdaith yn dechrau yn Sgwâr y Guildhall, Caerfyrddin, am 4 o'r gyda  
llusernau, canhwyllau a thortshis ac yn teithio i wasanaeth yn Eglwys San Pedr  
am 5 o'r gloch**

**Te Prynawn  
Pnawn Sul, 29 Ionawr 2023 am 4 o'r gloch  
yn y Llwyn Iorwg.**

**Pris £9**

**Siaradwr gwadd  
Peter Hughes Griffiths  
yn traddodi ar 'Merched yn fy mywyd'!**



**Gwefan yr Undeb: [www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)**



# Stampiau Cristnogol - Nadolig 2022

*Cofiwch ofyn amdanynt!*



Mae'r Post Brenhinol yn dathlu Nadolig 2022 gyda chyfres o chwe stamp a ddyluniwyd yn arbennig gan yr arlunydd Katie Ponder o Swydd Caint.



Mae'r delweddau'n canolbwyntio ar adegau allweddol yn stori draddodiadol y Nadolig yn cynnwys y Daith i Fethlehem a'r Doethion yn dilyn y Seren.

Dyma fydd y stampiau olaf i gynnwys cysgodlun y Frenhines Elizabeth.  
A dyma yw'r tro cyntaf i'r Post Brenhinol gyhoeddi set gyflawn o stampiau dathlu wedi'u bargodio. Mae'r Nadolig hwn felly'n garreg filltir nodedig yn hanes y Post Brenhinol.


**Cofiwch ofyn am stampiau Cristnogol eleni. Mae'n bwysig i ni gofio fod yna berygl i'r dyluniadau Cristnogol leihau os yw'r gwerthiant yn disgyn!**




**Y dyddiadau postio olaf a argymhellir er mwyn i bost gyrraedd mewn pryd ar gyfer y Nadolig yw:**

**Dydd Llun 19 Rhagfyr 2022 ar gyfer post Ail Ddosbarth  
a**

**Dydd Mercher 21 Rhagfyr 2022 ar gyfer post Dosbarth Cyntaf**

|                                                                                    |                                                                                                             |
|------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  | <p><b>CARDIAU NADOLIG<br/>CYMORTH CRISTNOGOL<br/>ac<br/>EISTEDDFOD YR URDD<br/>Ar gael yn y Priordy</b></p> |
|------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

**COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS**



**JOHN ROBERTS**  
(Ieuan Gwyllt)  
1822 - 1877



**MAE** gan ddilynwyr y Gymanfa Ganu a rhaglenni fel *Dechrau Canu Dechrau Canmol* ddyled fawr i'r gŵr y dathlwn ddeucanmlwyddiant ei eni'r mis hwn – un a gyfrannodd mor helaeth i'n traddodiad emynyddol yng Nghymru.

Ganed John Roberts neu Ieuan Gwyllt, yn Nhanrhiwfelen, Capel Seion, Aberystwyth ar 27 Rhagfyr 1822, cyn i'r teulu symud i fyw i Tynyffordd, Penllwyn, Aberystwyth ac yna i Pistyllgwyn yn nyffryn Melindwr. Derbyniodd ei addysg gynnar yn Ysgol Lewis Edwards, Penllwyn a bu am ychydig o fisoedd yng Ngholeg Normal Borough Road Llundain. Daw ei enw barddol o'r un a ddefnyddia'i'n ifanc wrth ysgrifennu barddoniaeth. sef Ieuan Gwyllt Gellydd Melindwr.

Gweithiodd am gyfnodau fel clerig gyda chwmnïau yn Aberystwyth ac yna fel athro yn yr Ysgol Frutanaidd yn Skinner Street yn y dref.

Ym 1852, cafodd ei benodi'n olygydd *Yr Amserau*, gan olynu Gwilym Hiraethog, ac yn ystod y cyfnod hwnnw yn Lerpwl y dechreuodd bregethu. Symudodd wedyn i Aberdâr i olygu'r *Gwladgarwr* (1858). Priododd â Jane Richards o Aberystwyth.

Ym 1861 cafodd ei ordeinio'n Weinidog gan y Methodistiaid Calfinaidd a gwasanaethodd eglwysi Pant Tywyll, Merthyr Tudful, Capel Coch Llanberis a'r Fron, Llanfaglan, ger Caernarfon.

Ymhlith y cylchronau a sefydlodd roedd *Telyn y Plant* (rhagflaenydd *Trysorfa y Plant*) (1859), *Y Cerddor Cymreig* (1861), *Cerddor y Tonic Sol-ffa* (1869). Bu hefyd yn olygydd *Y Goleuad* (1871-72).

Roedd cyhoeddi ei gasgliad cyntaf o donau *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* (1859) yn garreg filltir nodedig yn natblygiad canu cynulleidfaol yng Nghymru. Fe'i disgrifir gan Rhidian Griffiths ym Mwletin Cymdeithas Emynau Cymru (Cyf 11 Rhif 9) fel '*maes llafur cantorion capeli Cymru am flynyddoedd*'. Cyhoeddodd *Atodiad* ac, ym 1870, *Ychwanegiad*, i'r *Llyfr Tonau*.

Yna wedyn ym 1874 cyhoeddodd *Sŵn y Jiwbilli*, sef trefniant o emynau a thonau Sankey a Moody yn Gymraeg. Bu'r gasgliad hwn yn un hynod o boblogaidd a

dylanwadol gan ddod â nodyn newydd i'r canu ac roedd yn dra gwahanol i gynnwys y *Llyfr Tonau*. Teithiodd leuan Gwylt yn ogystal i bob rhan o Gymru i ddarlithio ar ganiadaeth grefyddol.



Cysylltir ei enw gan amlaf â'r Gymanfa Ganu. Roedd yn enwog fel arweinydd cymanfaoedd canu ac fel beirniad. Mae Rhidian Griffiths yn ei ddisgrifio fel '*cawr o ddyn sy'n pingo mewn canrif o gewri.*' gan ychwanegu mai ei ddylanwad e yn anad neb a fu'n fodd i ddwyn i fri y gymanfa ganu.

Bu farw 14 Mai 1877 a'i gladdu ym mynwent Caeathro, ger Caernarfon.

Mae gan leuan Gwylt naw o donau yn *Caneuon Ffydd*. Ei donau mwyaf adnabyddus yw *Arduddy*, *Esther*, *Liverpool* a *Moab*. Mae ganddo hefyd dri emyn yn y gyfrol (221,454,483). Rhown sylw'r tro hwn i emyn nad yw yn *Caneuon Ffydd* ond sy'n ymddangos yn y gyfrol *Carolau Nadolig i Blant - Awn i Fethlehem*. Dyfynnwyd rhan o'r garol ar y tudalen blaen ond dyma'r garol gyflawn sydd i'w chanu ar yr Alaw Seisnig *Greensleeves* (tr. John Hughes 1896-1968) a hynny er clod a diolch i leuan Gwylt wrth i ni gyrraedd carreg filltir arbennig yn ei hanes:



|                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Pa fwyn beroriaeth glywaf draw<br/>Yn torri drwy'r distawrwydd?<br/>Cyhoedda'r nef mewn cytgan gref,<br/>'Fe anwyd Crist yn Arglwydd'.<br/>Mawl, mawl, doed mawl a mân<br/>I eilio cân i'r Baban glân;<br/>Mawl, mawl i'r Baban glân<br/>A gaed ym Methlem Jiwda.</b></p> | <p><b>Fe gaed y Ceidwad – diolch byth!<br/>Yn ddi-lyth fe'i haddolwn;<br/>Ei fawl a'i glod, tra nef yn bod,<br/>Mewn nefol hwyl a ganwn.<br/>Mawl, mawl! Drwy'r ddaer a'r nen,<br/>Boed Ef yn ben, Amen, Amen.<br/>Mawl, mawl! Boed Ef yn ben,<br/>A gaed ym Methlem Jiwda.</b></p> |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

**Cynhaliwyd gwasanaeth i gofio am leuan Gwylt yn y Priordy ar Sul cyntaf yr Adfent ar 30 Tachwedd 2022 gydag Alun Charles, Sulwyn Thomas, Catrin Heledd Jones a Gareth Gravel yn cymryd rhan. Y cyhoeddwr oedd Elinor Wyn Reynolds ac roedd Heather Williams wrth yr organ. Gweithredodd Elis Jones fel technegydd. Cynheuwyd y gannwyll gyntaf ar Dorch yr Adfent gan Huw Jones**



# HWYL DROS YR WYL! CWIS NADOLIG Y PRIORDY – 2022



*Gareth Gravell yn ein herio!*

**BLE BYDDECH CHI PE BAECH YN EDRYCH AR Y TIRNODAU CANLYNOL?**

- |    |                             |
|----|-----------------------------|
| 1  | Tŵr Eiffel                  |
| 2  | Y Taj Mahal                 |
| 3  | Tŵr Pisa                    |
| 4  | Côr y Cewri                 |
| 5  | Eglwys La Sagrada           |
| 6  | Y Pyramidau                 |
| 7  | Mynydd Rushmore             |
| 8  | Y Burj Khalifa              |
| 9  | Yr Acropolis                |
| 10 | Cofgolofn Crist y Gwaredwr  |
| 11 | Basilica San Pedr           |
| 12 | Ynys Alcatraz               |
| 13 | Tŵr CN                      |
| 14 | Goleudy Ynys Lawd           |
| 15 | Machu Pichu                 |
| 16 | Cofgolofnau Moai            |
| 17 | Ayers Rock / Uluru          |
| 18 | Eglwys Gadeiriol Notre Dame |
| 19 | Pagord Shwedagon            |
| 19 | Teml Angkor Wat             |

*Diolch yn fawr iawn i Gareth am baratoi'r cwis,  
Gweler yr atebion ar Dudalen 36*



## NADOLIG MARIAN EVANS



### **Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

*Mae dydd Nadolig yn ymwneud â'r teulu cyfan yn dod at ei gilydd. Mae pawb yn bwrw iddi. Rwy'n ffodus iawn bod fy nheulu agos i gyd yn byw'n lleol. Mae llawer o fwyta, gemau, chwerthin a diolchgarwch. Rydym yn ffodus iawn.*

*Mae'n wir yn un o fy hoff adegau o'r flwyddyn.*

### **Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

#### **Cwrs Cyntaf**

*A dweud y gwir ry'n ni'n tueddu i osgoi'r cwrs cyntaf a mynd yn sownd yn y prif gwrs*

#### **Ail Gwrs**

*Mae'n rhaid iddo fod yn dwrci gyda'r trimins i gyd. Moch mewn blancedi, stfffin arbennig mam a'r ysgewyll Brwsel gorfodol nad oes neb ond dad yn eu hoffi. Yn union fel pan oeddwn i'n 5 oed bydd fy merched yn eu gwthio o amgylch y plât nes bod mam-gu yn sylwi*

#### **Trydydd Cwrs**

*Fel arfer mae dewis gwych wrth y bwrdd, gyda phob teulu'n dod â rhywbeth gwahanol. Mae'n debyg y bydd yna bwdin Nadolig traddodiadol, roulade ffrwythau a hufen neu rywbeth ysgafnach fel melba eirin gwlanog*

### **Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

*Oen swci. Dal methu deall sut cafodd Siôn Corn e i lawr y simnai!*

### **Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

*Anodd iawn i mi ddewis ffefryn, Dwi'n ffan mawr o garolau. Maent yn codi cymaint o atgofion hapus. Eu canu yn y capel yn blentyn, yn y CFl a'r ysgol ayyb. Rhai o fy ffefrynnau yw, Tawel Nos, O Deuwch, Ffyddloniaid, I Orwedd Mewn Preseb ac*

*O Dawel Ddinas Bethlehem*

## Llythyr a dderbyniodd Alison Parsons yn ddiweddar

Annwyl Alison

Roeddwn eisiau cysylltu â chi i fynegi'n diolch a'n gwerthfawrogiad am eich cefnogaeth werthfawr eto eleni ac am drefnu Bore Coffi llwyddiannus unwaith yn rhagor a gododd y swm anhygoel o £1,200. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb yn y capel am ein cefnogi ni er 2010 ac am godi cyfanswm o £16, 294.87 sy'n rhyfeddol yn wir!

Mae haelioni ac ymroddiad ein cefnogwyr hirsefydlog yn golygu ein bod yn gallu parhau i fod ar gael ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser. Er enghraifft, gallai'ch rhodd dalu am Nyrs MacMillan am 493 a mwy o oriau i helpu pobl sy'n byw gyda chanser a chynorthwyo'u teuluoedd i dderbyn cynhaliath emosiynol, ymarferol a meddygol anghenrheidiol.

Mae dros 115,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda chanser a thasg enfawr yw sicrhau ein bod yn gallu gwneud beth bynnag sydd ei angen i gynnig y gefnogaeth iawn iddynt Bu gostyngiad mawr yn yr arian a godwyd yn ystod y pandemig ac mae angen eich rhoddion yn fwy nag erioed yn yr Argyfwng Costau Byw presennol. Bydd eich rhoddion yn helpu MacMillan i gyflawni beth bynnag sy'n ofynnol er mwyn dod o hyd i well ffyrdd o helpu pobl gyda chanser.

Diolch i chi unwaith eto am fod yn rhan mor bwysig o MacMillan. Rydych wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i gymaint o bobl dros Gymru. Fydden ni ddim yn gallu parhau i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol heb eich cymorth. Cofiwch gadw mewn cyswllt a rhoi gwybod os gallaf eich cefnogi gyda'ch ymdrechion codi arian yn y dyfodol.

Pob dymuniad da




Sue Reece

Rheolwr Ymgysylltu a Chodi Arian – Cymru  
Cymorth Canser MacMillan



# YMARFER YN YR YSGOL SUL AR GYFER Y GWASANAETH NADOLIG







**Mae'n fis Rhagfyr! Pa mor dda ydych chi'n 'nabod eich carolau? Mae ail linell deg carol isod. Tybed beth yw'r llinell gyntaf? Nid yw pob llinell gyntaf yn dechrau gyda'r un llythyren y tro hwn, cofiwch!! Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!**


|    |                                      |   |
|----|--------------------------------------|---|
| 1  | a chlyd yw'r gwely gwair             | M |
| 2  | a datod rwymau Isrâel                | O |
| 3  | neidio, dawnsio a difyrro            | A |
| 4  | ar enedigaeth Brenin nef             | P |
| 5  | cyfaill gwerthfawroca' rioed         | W |
| 6  | geni Seilo, gorau swydd              | W |
| 7  | yn y beudy isel, gwael               | D |
| 8  | cwynai'r rhewynt oer                 | G |
| 9  | o Nasareth draw, wedi blino'n llwyr? | A |
| 10 | a deued pawb ynghyd                  | D |

**Atebion ar Dudalen 36**

## A DDYLID PARHAU I GOFIO?

Cawsom oedfa arbennig a hynod o fendithiol ar Sul y Cofio.

Clywsom fel mae cofio erchylltra rhyfel more berthnasol heddiw ag y bu erioed. Mae'n bwysig cofio ond yr un mor bwysig yw'r ffordd o gofio. Os oes i'r wyl goffa hon ei gwerth a'i harwyddocâd o hyd, yna mae'n rhaid iddi beidio â dirywio i fod yn sioe filitaraidd sy'n meithrin ysbryd o falchder cenedlaethol ac ymffrost mewn buddugoliaethau a enillwyd dros elynion ar faes y gad. Mae yna ffordd o gofio a dewis cofio'n dawel, yn fyfyrgar ac yn edifeiriol ac mewn ymgyflwyniad o'r newydd i wasanaeth Duw a gwasanaeth ein cyd-ddyn a wnaethpwyd yn ystod ein hoedfa.




Diolch i Elis Jones, Adrian Evans, Huw a Mwynwen Jones, Meleri Llwyd O'Leary ac Eirlys Davies am gymryd rhan ac i'n Gweinidog am baratoi.

## CALENDR ADFENT RHITHIOL YR OFALAETH

Ymunwch â ni'n ddyddiol drwy'r Adfent  
Ar Wepryd Capel y Priordy

Diolch i  
Angharad a Ieuan Wyn  
am baratoi'r Calendr



## NADOLIG

Mererid Hopwood  
Tudur Dylan Jones  
Golygyddion

Barddas: £8.95

*Casgliad o gerddi newydd sbon am y Nadolig  
gan feirdd adnabyddus*

**Beti-Wyn, Llywydd presennol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ar lan bedd Llywydd Cyntaf yr Undeb, sef William Rees (Gwilym Hiraethog) (1802-1883) yn Toxteth, Lerpwl, ble gosododd dorch o flodau er cof amdano a hynny ym mlwyddyn dathlu 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r Undeb**



**Canwyd un o emynau Gwilym Hiraethog yn ein hoedfa arbennig 'A ddylid parhau i gofio?' ar Sul y Cofio, sef *Dyma gariad fel y moroedd*, y mae'r diweddar Athro Dr Pennar Davies yn ei ddisgrifio fel emyn mwyaf yr iaith Gymraeg.**

# Ifanc@Priordy



## *Nadolig Llawn i Bawb!*

### **Gwasanaeth Nadolig PIP**

Ymunwch â ni mewn gwasanaeth arbennig dan olau kannwyll, nos Sul, 4 Rhagfyr am 5 o'r gloch. Cofiwch ddod!

### **Gwasanaeth Nadolig i'r teulu oll**

Prynhawn Sul, 11 Rhagfyr am 3 o'r gloch. Te Parti i ddilyn i'r plant a diod a mins peis i'r oedolion.

### **Bore Nadolig**

Gwasanaeth byr i'r teulu cyfan am 9 y bore. Os yw Siôn Corn wedi galw, dewch ag un o'ch anrhegion i'r cwrdd.

### **Amserlen yr Ysgol Sul**

Sul, 4 Rhagfyr – Ysgol Sul ac Ymarfer Gwasanaeth Nadolig  
Sul, 11 Rhagfyr – Ymarfer Gwasanaeth Nadolig am 10yb a  
Gwasanaeth Nadolig yr Eglwys am 3

Sul, 18 Rhagfyr – Dim Ysgol Sul ond dewch draw i Fancyfelin erbyn 6 i ddathlu gyda ni yn y pentref

Sul, 25 Rhagfyr – Bore Nadolig, Oedfa i'r teulu am 9

Sul, 1 Ionawr – Oedfa'r flwyddyn newydd am 10

Sul, 8 Ionawr – Cwrdd Plant a Phobl Ifanc am 10



## **Jôcs Nadolig!**

**Pa greadur sy'n hoffi cystadlu yn yr Elf-steddfod?**

Y cor-ach!

**Beth sy'n ddu, gwyn, a gyda thrwyn sy'n sgleinio'n goch?**

Mŵ-dolff!

**Beth mae Siôn Corn yn ei wisgo ar ei drwyn wrth glirio stablau'r ceirw?**

Peg y gogledd!



# CHWILOTAIR Y NADOLIG!

I G  
 K W  
 H G Q N  
 P L B X  
 F N R I U U  
 P E O E A U  
 U B J O S E F F G O I S G I W A U R W S  
 M L E G N A R I A M G H E U B A B A N R  
 I E S U F D D K D T I T B B P X Q Y  
 B S S M M E D I E J L E L C C M  
 E T D L W F E K U N O O Y A  
 F A O Y A A F E I K D D  
 G C N B O W Q I E W N A A D  
 Y E S V A K G L D N Y E G N  
 H G B E T H L E H E M G L G M S  
 E D Q R O R I G U J N L F B  
 S R P H E C O I R I A Y X O  
 N O K Y N G R T S U  
 X S D Z N M D E  
 R F

GWYL  
 BETHLEHEM  
 JOSEFF  
 STABAL  
 SEREN  
 AUR  
 EWYLLYSDA

GENI  
 IESU  
 MAIR  
 BUGAIL  
 HEROD  
 MYR  
 TANGNEFEDD

BABAN  
 ANGEL  
 PRESEB  
 DEFAID  
 DOETHION  
 NEGES  
 NADOLIG  
 L A



**Nadolig Llawn i bawb!**  
**Beti-Wyn x**

## AELODAU NEWYDD Y PRIORDY

*Gweler yr adroddiad Oedfa Deulu*





## Oedfa Deulu

### 6 Tachwedd 2022



**H**yfryd oedd gweld cynifer o bobl yn y Priordy ar Sul cyntaf Tachwedd - er gwaetha'r gwynt a'r glaw parhaus roedd hi'n llawn. Gyda'r band yn cyfeilio roedd awyrgylch croesawgar a bywiog yn y cwrdd. Yn dilyn yr arfer bellach offrymwyd gair o weddi dros drigolion Wcráin sydd yn byw dan orthrwm a rhyfel ofnadwy a daeth y gannwyll unwaith eto ynghyn i gofio amdanynt.



Wedi'r cyhoeddiadau gan Alison ac i'r gynulleidfa ganu emyn 416 "*Y mae in wardwr*" casglodd Trystan, Brynmor, Aneurin a Non y casgliad ac offrymwyd gair o weddi gan Beti-Wyn am y rhoddion.

Darllenodd Ethan a Iestyn lythyr 1af Paul at y Corinthiaid, Pennod 12, sydd yn sôn am rannau gwahanol y corff. Maen nhw'n allweddol bwysig fel darnau hanfodol ynddynt eu hunain ond rhyngddibynnol ac yn cydweithio'n well gyda'i gilydd. Yn union fel ni yn y Priordy - mae pob un ohonom yn bwysig yn unigol ond yn ddibynnol ar ein gilydd ac yn cydweithio'n well.

Arweiniodd Elliw a Gwenan ni oll mewn gweddi yn diolch i Dduw am ein gwneud ni fel teulu, yn rhannau pwysig o'r un



mawr, pob un ohonom gyda rhan i'w chwarae i gefnogi ein gilydd. Daeth cyffro mawr gan bawb wrth i Beti-Wyn arwain y plant i gyfrannu i'r emyn nesaf 794 "*Cristion bychan ydwyf*" trwy'r band taro - cymaint oedd mwynhad yr oedolion iddynt hwythau gyfrannu wrth guro dwylo hefyd. Tybed a yw'r oedolion hefyd yn dyheu am ymuno â'r band taro? Oes angen rhagor o offerynnau taro arnom yn y Priordy?!

Cafodd y plant lot fawr o hwyl yn agor anrhegion gyda Beti-Wyn ble canfuwyd Blawd, Wy, Menyn a Siwgr, pob un yn gynhwysyn eithaf diflas ynddo'i hunain ond yn well ar y cyd. Dangosodd Beti-Wyn gacennau roedd wedi'u coginio gyda'r cynhwysion ac edrychai'r plant ymlaen yn fawr iawn at flasu'r rhain ar ddiwedd y gwasanaeth!



Yn ystod yr emyn nesaf (Emyn 646) daeth darpar aelodau newydd y capel i'r blaen yn barod i gael eu derbyn Syfi, Gwion, Gwenllian, Siwan, Jac a Harri. Hyfryd

iawn oedd derbyn y 6 aelod ifanc ond hefyd 3 aelod arall yn trosglwyddo eu haelodaeth i'r Priordy, Meilir Griffiths tad Alys a Mali a gŵr i Teleri o Seion Baker Street Aberystwyth, ac Elfed a Nia Lewis o Gapel Bethlehem newydd Pwll-trap, y ddau yn fam-gu a thad-cu i Greta a Miriam a rhieni i Angharad sydd yn weithgar iawn ym yr Ysgol Sul. Llawenydd mawr oedd gweld pawb yn y capel yn derbyn y 9 aelod a phawb yn hapus rhyfeddol fod mwy o aelodau newydd yn y capel. Fel dywedodd Beti-Wyn, mae'r capel eu hangen nhw a hwythau'r capel, a braint oedd gweld ein teulu yn tyfu yn y Priordy.

**W**edi i ni gael y Cymundeb a dilyn gorchymyn Crist i "*wneud hyn er cof amdano*" daeth y gwasanaeth i ben gydag Emyn 656 "*Edrych ar y rhai sy'n ceisio*" a'r fendith gan Beti-Wyn.



Gwasanaeth hyfryd, llawen a llawn gobaith a chynheswydd serch y tywydd garw tu allan.

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?  
Trowch at: [cyfundeb.com](http://cyfundeb.com)**



## NADOLIG STEPHEN JONES



### **Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

*Ers i fi ymdeol o chwarae rygbi a newid fy swydd i hyfforddi mae fy niwrnod Nadolig tipyn yn wahanol. Rydw i wrth fy modd yn treulio diwrnod y Nadolig gyda fy nheulu a bydd rhan fwyaf y dydd yn cael ei dreulio gyda bola llawn a gwydraid o win yn fy llaw. Bydd mynd â'r ci am dro hefyd yn rhan o'r diwrnod nawr. Her yw denu'r plant oddi wrth eu teganau Nadolig newydd ond mae pawb yn mwynhau bod allan unwaith yn yr awyr iach.*

### **Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

#### **Cwrs Cyntaf**

*Fel arfer rhywbeth ysgafn fel salad neu melon, os unrhyw beth o gwbl. Mae well gen i gadw lle ar gyfer y prif cwrs sef y cinio Nadolig. Tynnu cracyr ywr peth pwysicach fan hyn!*

#### **Ail Gwrs**

*Cinio Nadolig traddodiadol yn cynnwys Twrci, stffin, selsig wedi eu lapio mewn bacwn gyda llysiau fel sbrowts a bresych coch.*

#### **Trydydd Cwrs**

*Byddwn wastad yn cael Pwdin Nadolig wedi'i oleuo â brandi fflamlyd a darn o gelyn ar ei ben. Digon o saws brandi hefyd ac efallai darn o arian ynddo os wy'n lwcus. Byddwn fel arfer yn oedi tipyn nes cael y Pwdin Nadolig ac yn aml iawn yn aros tan yn hwyr y p'nawn neu'n gynnar gyda'r nos hyd yn oed.*

### **Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

*Roeddwn yn 9 oed pan gefais fy hoff anrheg Nadolig. Tegan car symudol a reolir o bell. Mercedes Benz. Heb anghofio tanjerin wrth gwrs ac arian siocled ar waelod fy hosan bob Nadolig.*


### **Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

*O dawel Dinas Bethlehem. Mae'n dod nôl ag atgofion melys o'r ysgol gynradd a chyfnod y Nadolig pan oeddwn yn blentyn.*


## GŴR A NEWIDIODD Y BYD

**Y MIS HWN** rydym yn dathlu deucanmlwyddiant geni un o wyddonwyr pwysicaf hanes, un a wnaeth gyfraniad nodedig, gan helpu i achub miliynau ar filiynau o fywydau.

Ganed **Lois Pasteur** ar 27 Rhagfyr 1822 yn Dole, Jura, Ffrainc. Yn fuan wedyn symudodd y teulu i Arbois ble cafodd ei addysg gynnar. Amlygai ddawn arbennig i ddarlunio a braslunio yn ei blentynod. Aeth wedyn i Goleg Besancon ac ym 1843 cafodd ei dderbyn i'r École Normale ym Mharis. Daeth cemeg yn hoff bwnc iddo hyd yn oed yn Besancon a dwysaodd ei ddiddordeb ynddo ym Mharis. Ym 1847, enillodd ddoethuriaeth. Bu'n addysgu ac ymchwilio yn Dijon Lycée, cyn dod ym 1848 yn athro cemeg ym Mhrifysgol Strasbourg.



Tra oedd yn Strasbourg, priododd â Marie Laurent, merch y pennaeth, a chawsant bump o blant ond collwyd tri ohonynt yn ifanc, sef dwy ferch i'r clefyd tyffoid ac un i lid yr ymennydd. Ym 1854, daeth yn athro a deon ym Mhrifysgol Lille. Dychwelodd i Baris yn 1857 wedi'i benodi'n rheolwr a chyfarwyddwr astudiaethau gwyddonol yn yr École Normale. Ym 1887, sefydlodd Athrofa Pasteur ym Mharis er mwyn cynnal ei archwiliadau bacteriolegol amhrisiadwy. Bu'n Gyfarwyddwr yr Athrofa hyd at ei farwolaeth. Dioddefodd strôc a barlysodd ochr chwith ei gorff ym 1868 ond llwyddodd i wella a pharhau i ymchwilio. Dioddefodd salwch pellach ym 1894 a effeithiodd ar ei



iechyd yn ddifrifol. Bu farw yn Saint Cloud, Ffrainc, ar 28 Medi 1895. Cafodd angladd wladol yng Nghadeirlan Notre Dame a'i gladdu yno ond yna ailddaearywyd ei weddillion mewn beddgell dan Athrofa Pasteur sy'n parhau i fod yn un o ganolfannau ymchwil mwyaf blaengar y byd.

Pan oedd yn gweithio yn Lille siaradodd â bragwr a oedd eisiau gwybod mwy am y rheswm fod y diodydd a wnâi, fel gwin a chwrw, weithiau'n mynd yn sur. Arweiniodd ei arbrofion at well ddealltwriaeth o'r broses o eplesu a sut i'w atal. Llwyddodd drwy

ddefnyddio microsgop i ddarganfod micro-organebau neu germau'n tyfu yn yr hylif ac mai hynny oedd yn achosi'r broblem.

Darganfyddodd y gellid lladd y bacteria microsgopig oedd yn suro'r hylif drwy ei gynhesu i dymeredd penodol a thrwy hynny ei arbed rhag mynd yn ddrwg. Daeth y broses i'w adnabod fel pasteuriddio, sef un a enwyd ar ei ôl.

Yr un broses sy'n sicrhau bod llaeth yn rhydd o unrhyw facteria niweidiol ac yn caniatáu i ni ei fwynhau am amser hwy. Arweiniodd gwaith Pasteur at chwyldro yn y diwydiant bwyd.



Ym 1861, cyhoeddodd Pasteur ei theori germau ac, erbyn



1865, roedd wedi profi bod cyswllt rhwng germau ac afiechyd. Roedd llawer o bobl y cyfnod yn dal i gredu nad oedd germau'n niweidiol i bobl ond profodd Pasteur fod germau'n gallu achosi salwch. A thra oedd yn gweithio ar ei theori germau, roedd clefyd dirgel yn bygwth chwahu'r diwydiant sidanbryfed yn Ffrainc. Roedd hyn yn fygythiad i'r economi a'r clefyd yn dechrau lledu i wledydd cynhyrchu sidan eraill, fel yr Eidal, Awstria ac Asia Leiaf.

Daeth Pasteur i'r adwy gan ddangos fod y sidanbryfed yn dost a chyflwyno dull o ddatrys y broblem - dull sy'n dal i gael ei ddefnyddio hyd heddiw mewn gwledydd sy'n cynhyrchu sidan.




Darganfyddodd Pasteur fod llawer o glefydau'n cael eu hachosi gan ficrobau. Datblygodd ddull o atal clefydau o'r enw brechu. Mae brechu'n golygu doddi germau a waniwyd yng nghorff anifail neu berson. Dyw'r germau hyn ddim yn gwneud yr anifail neu'r person yn dost. Yn hytrach, mae'r corff yn 'dysgu' sut i ymladd yn erbyn yr haint a achosir gan y germ dan sylw. Datblygodd Pasteur dri brechiad cynnar - yn erbyn geri'r ieir, anthracs neu'r clwyf du a'r gynddaredd. Yn gyffredinol, dangosodd Pasteur fuddiannau brechu fel dull o achub bywyd, er iddo dorri corneli wrth ddatblygu ambell un! Drwy'r gwaith hwn dangosodd y ffordd i eraill. Ers dyddiau Pasteur mae gwyddonwyr wedi datblygu brechiadau yn erbyn nifer o glefydau, fel yn ein cyfnod ni pan welwn sawl cwmni wrthi'n cynhyrchu brechiadau i amddiffyn pobl rhang y coronavirus sy'n achosi'r clefyd Covid-19.

Mae niferoedd mawr o sterydoedd, ysgolion ac adeiladau yn Ffrainc – a thu hwnt - yn dwyn ei enw. Enillodd hefyd glod uchaf ei wlad drwy dderbyn y Lleng Anrhydedd.

**ROEDD** Pasteur yn Gatholig taer. Er ei fod yn wyddonydd rhyfeddol roedd hefyd yn ddyn crefyddol. Roedd yn cydnabod yr angen am grefydd ac weithiau dibynnai ar ffydd yn unig i barhau â'i waith. Meddai un tro: 'Mae ychydig o wyddoniaeth yn pellhau rhywun oddi wrth Dduw, ond mae llawer o wyddoniaeth yn nesáu rhywun ato - po fwyaf rwy'n astudio natur, y mwyaf rwy'n rhyfeddu at waith y Greadigaeth.'

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>CAPEL PENYGRAIG</b><br/>CROESYCEILIOG GER CAERFYRDDIN<br/>Cynhelir<br/><b>GWASANAETH<br/>PLYGAIN<br/>TRADDODIADOL</b></p> <p><b>YNG NGHAPEL PENYGRAIG</b></p> <p><b>NOS SUL, 11 RHAGFYR 2022 AM 6.30</b></p> <p><b>Croeso cynnes i bawb<br/>yn garolwyr a gwrandawyr</b></p> <p>Gwneir casgliad yn ystod yr oedfa tuag at<br/>Cymdeithas Strôc Cymru / Stroke Association Wales</p> | <p><b>Menopos?<br/>Paned?</b></p> <p><b>Ymdopi mewn cwmni.</b><br/>Ymunwch â ni<br/>am baned<br/>a sgwrs Gymraeg gyfeillgar</p> <p><b>Nos Lun, 9 Ionawr 2023<br/>am 6 o'r gloch<br/>yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg,<br/>Caerfyrddin</b></p> <p>Manylion pellach -<br/>Meleri: pentremeurig7@sky.com<br/>Alison: Alison683@btinternet.com<br/>Beti-Wyn: beti.wyn@icloud.com</p> |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  | <p><b>ANWYDDOLDEB</b></p> <p><b>Elinor Wyn Reynolds</b></p> <p><b>Cyhoeddiadau Barddas: £8.95</b></p> <p><i>Cyrol gyntaf o gerddi gan Elinor Wyn Reynolds.<br/>Os mai taith yw bywyd yna cyrol yw<br/>Anwyddoldeb sy'n cerdded llwybr bywyd gan<br/>sylwi ar y profiadau a'r dewisiadau ddaw i'n rhan,<br/>ac aros weithiau ar hyd y ffordd.</i></p> |
|------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

Elinor W Reynolds...

## Cael crap ar bethau

**WY** am ofyn cwestiwn i chi nawr. Ydych chi wedi sylwi ar y papur tŷ bach sydd yn y Priordy? Naddo? Wel, does dim byd arbennig wedi bod amdano, hyd nawr ...



Ers tro, bu tŷ bach y Priordy wedi'i efreillio gyda thŷ bach mewn gwlad sy'n datblygu, gan gyfrannu arian tuag at brosiectau sy'n gweithio i greu adnoddau gwell ar gyfer cyflenwi dŵr glân a delio gyda charthion mewn modd diogel, yn ogystal â chreu cyfleusterau sy'n llefydd diogel i ferched a menywod i'w defnyddio.



Mae bod yn rhan o rywbeth fel hyn yn beth ardderchog. Ond, nawr, mae'r Priordy wedi mynd gam ymhellach gan benderfynu dechrau defnyddio papur tŷ bach gan gwmni sy'n gwneud yr un math o waith da wrth fuddsoddi mewn systemau carthffosiaeth a dŵr glân mewn gwledydd sydd heb yr un cyfleusterau â ni.

Mae cwmni *Who Gives a Crap* yn gwmni sy'n darparu cynnyrch o safon a hefyd yn helpu pobl sydd mewn sefyllfa dipyn llai ffodus a cheisio gwella eu bywydau nhw. Mae oddeutu 2 biliwn o bobl heb fynediad at dŷ

bach, mae hynny oddeutu 40% o boblogaeth y byd. Bob blwyddyn mae oddeutu 289,000 o blant o dan 5 yn marw oherwydd ansawdd dŵr gwael a diffyg carthffosiaeth effeithiol. Mae hynny bron yn 800 o blant y diwrnod neu un plentyn bob dwy funud.

Yn 2012 yn America, penderfynodd tri ffrind, Simon, Jehan a Danny nad oedd hyn yn dderbyniol o gwbl ac felly fe gychwynnon nhw gwmni *Who Gives a Crap* i gyflenwi papur tŷ bach a'i werthu er budd cynlluniau sy'n gwella ansawdd bywydau pobl mewn gwledydd tlawd. Erbyn hyn mae'r cwmni wedi ehangu i sawl gwlad drwy'r byd. Y mae



dŵr wedi'i lygru'n cyfrannu at farwolaethau dros 1 miliwn o bobl y flwyddyn. Mae'r cwmni'n cydweithio gyda phrosiectau sy'n gweithio mewn gwledydd gwahanol i wella bywydau pobl. Maen nhw'n buddsoddi 50% o elw mewn prosiectau sy'n gweithio i sicrhau cyflenwad dŵr glân a gwell systemau carthffosiaeth gan anelu at gael tŷ bach i bawb yn ein byd, ac sy'n helpu arbed bywydau. Mae tua 3 biliwn o bobl heb gyfleusterau i olchi eu dwylo yn eu cartrefi hyd yn oed, pethau sylfaenol yr ydyn ni'n eu cymryd yn ganiataol. Mae'r wybodaeth am y prosiectau gwahanol i'w cael ar eu gwefan nhw.

Felly, bob nawr ac yn y man o hyn ymlaen, bydd y Priordy yn derbyn llond bocs o bapur tŷ bach wedi'i lapio'n unigol mewn papur pert gan Who Gives a Crap i ni ei ddefnyddio yn y jeriw. Ac mae gwybod ein bod ni'n helpu pobl eraill i gael bywydau gwell mewn rhannau eraill o'r byd yn beth gwych.

**BETH AM I CHI** danysgrifio er mwyn derbyn cyflenwad o'r papur tŷ bach hwn adre? Mae nifer o deuluoedd y Priordy eisoes yn gwneud. Yna, fe gewch chi gap go iawn ar bethau!



**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**

Cyswllt

**PHILIP JONES**

**TRYSORYDD**

☎ 01267 233437 / [info@maxevans.co.uk](mailto:info@maxevans.co.uk)



**YN DYMUNO CYFAMODI?**

**DENNIS JONES**

**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**



**CRISTION -- Cyhoeddiad deufisol**

I archebu copi - Cysylltwch â Sulwyn Thomas



## NADOLIG MATTHEW RHYS



### **Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

*Fy hoff Nadolig i ydi... adre yng Nghymru. Rwy' wedi byw yr yr Unol Daleithiau ers dros 20 mlynedd felly mae cael dod adref at fy nheulu a fy ffrindiau oes yn anrheg perffaith bob tro!*

*Ers astudio yn y coleg yn Llundain yn y 90au hwyr, bydd cynnwrf o hyd am ddechrau'r daith am adre – fel arfer ar y trê'n o Orsaf Paddington – i dreulio'r Nadolig yng Nghaerdydd. Wrth dynnu i fewn i'r Orsaf Ganolog a gweld yr holl oleuadau, mae'r wefr o fedru sibrwd 'dw i adre' dan fy ngwynt yn un sbesial. Caf gwrdd â ffrindiau ysgol Noswyl y Nadolig i hel clecs am hwn a'r llall ac atgofion ein plentyndod yn dod â gwên lydan bob tro.*

*Bydd arogl dydd Nadolig yn fy neffro drannoeth; y twrci yn y ffwrn ers yn gynnar iawn a'r bos yn y gegin yn gofyn am help llaw yn plicio tatws neu foron; wiw i fi wrthod! Bydd cais hefyd yn dod i fynd i'r capel i gofio gwir neges y Geni - ond fel eira ar ddiwrnod Nadolig, ma' fe ambell waith yn digwydd a thro arall ddim. Un defod bwysig yw peidio ag agor anrhegion o dan y goeden tan wedi cinio; byddem ni'r plant o hyd ar dân am wneud ers y bore bach ond wedyn yn mwynhau cael ail wynt yn y prynhawn a thynnu'r papur lapio yn gloi!*

*Daw'r cyfle i wyllo James Bond gyda phlatiaid o frechdanau twrci erbyn iddi nosi er nad oes gwir angen ychwanegu at y calorïau.*

## Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?

### Cwrs Cyntaf

*Pryd cyntaf - melon a ham o'r Eidal sy'n boblogaidd yn ein tŷ ni.*

### Ail Gwrs

*Pob traddodiad yn ymwneud â'r twrci: tatws rhost, ysgewyll, saws bara a llugaeron. Ambell i waith gwydd neu bïff ond fel arfer twrci sy piau hi.*

### Trydydd Cwrs


*Pwddin Nadolig i goroni'r holl beth... gyda chwstard, nid saws brandi i fi.*

## Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?

*Dwi'n cofio unwaith pan o'n i'n ddeng mlwydd oed, cael drwm taro yn anrheg Nadolig...dw i'n siŵr i fy rieni ddifaru eu dewis am amser maith!*

## Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?

*Fy hoff garol yw O deuoch ffyddloniaid. Dw i'n hoffi fel mae'n adeiladu at uchafwynt ac yn mwynhau'r sopranos!!*



## BREUDDWYD ROC A RÔL

Cleif Harpwood gydag  
Elinor Wyn Reynolds

Y Lolfa: £14.99


*Hunangofiant prif leisydd Edward H Dafis, sy'n plethu straeon am y band â hanesion personol*

## AR NOS FERCHER ARFEROL

Ysgol Farddol Caerfyrddin

1992-2022

£5







# APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR



*Ymateb ardderchog.  
Diolch i bawb sydd wedi cyflwyno rhodd*



## GAIR O WERTHFAWROGIAD

Diolch o galon i'n gwesteion arbennig sydd wedi bod mor barod i gyfrannu i Rifyn Nadolig ein Papur, sef

**Marian Evans**

Entrepreneur, Hyfforddwr Busnes a Pherchennog Castell  
Enillydd Merch Ysbrydoledig y Degawd (Gwobrau WIB) a Mentor y Flwyddyn  
(Gwobrau WIFA)


**Matthew Rhys**

Actor o fri rhyngwladol. Urddwyd yn aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod  
Genedlaethol Caerdydd 2008 am ei gyfraniad i'r Gymraeg a Chymru.  
Ei enw barddol yn yr Orsedd yw Matthew Taf

**Stephen Jones**

Un o hyfforddwyd Cymru. Ymysg chwaraewyr mwyaf disglair ei gyfnod. Dros  
100 o Gapiau i Gymru a chwe ymddangosiad dros y Llewod. Chwaraeodd  
dros Lanelli, Scarlets, Clermont Auvergne a Wasps

Diolch iddynt i gyd am eu diddordeb, am gwblhau'r ffurflenni, am anfon  
lluniau a hefyd am eu dymuniadau da



**RHAID I BOPETH NEWID – CYFROL I DDATHLU  
60 MLWYDDIANT  
CYMDEITHAS YR IAITH**


Golygydd  
Dafydd Morgan Lewis  
Y Lolfa: £9.99

*Drwy lygaid rhai o'i haelodau mwyaf blaenllaw,  
amlinellir gweledigaeth y Gymdeithas ar gyfer  
y dyfodol*

**ORIEL Y BARDD**

Golygydd gan  
D Geraint Lewis  
Barddas: £9.95

*Cyfrol sy'n cynnwys dros 1000 o ddyfyniadau  
diddorol, doniol a doeth o farddoniaeth gyfoes  
gan feirdd amrywiol*





PANED A SGWRS YNG  
NGWESTY'R  
LLWYN IORWG



TORCH YR  
ADFENT  
HARDD Y  
PRIORDY

DIOLCH I  
GILL OWENS  
AM EI GWAITH  
CELFYDD





# HWYL DROS YR WYL!

## CWIS NADOLIG Y PRIORDY – 2022



### ATEBION

1. Paris, Ffrainc 2. Agra, India 3. Piazza dei Miracoli, Pisa, Yr Eidal
4. Ger Caersallog, Wiltshire yn Ne Lloegr
5. Barcelona, Sbaen 6. Yr Aifft 7. De Dakota, Yr Unol Daleithiau
8. Dubai, Yr Erimadau Arabaidd Unedig 9. Athen, Attica, Gwlad Groeg
10. Rio de Janeiro, Brasil 11. Dinas y Fatican, Rhufain, Yr Eidal
12. San Fransisco, Yr Unol Daleithiau 13. Toronto, Canada
14. Caergybi, Ynys Môn, Cymru 15. Periw, De America
16. Easter Island, Chile 17. Tiriogaeth y Gogledd, Awstralia
18. Paris, Ffrainc 19. Myanmar 20. Cambodia

| <b>CWIS Y CAROLAU</b><br><b>ATEBION</b> |                                          |     |
|-----------------------------------------|------------------------------------------|-----|
| 1                                       | Mae'r nos yn fwyn ym Methlehem           | 431 |
| 2                                       | O tyred di, Emanwél                      | 432 |
| 3                                       | Awn i Fethlem, bawb dan ganu             | 436 |
| 4                                       | Peraidd ganodd sêr y bore                | 439 |
| 5                                       | Wele, cawsom y Meseia                    | 441 |
| 6                                       | Wele'n gwawrio, ddydd i'w gofio          | 448 |
| 7                                       | Draw yn ninas Dafydd Frenin              | 457 |
| 8                                       | Ganol gaeaf noethlwm                     | 466 |
| 9                                       | A welaist ti'r ddau a ddaeth gyda'r hwyr | 470 |
| 10                                      | Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn      | 479 |


**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN - CWRDD CHWARTER**  
 Dydd Iau, 9 Mawrth 2023 - Capel Smyrna  
 Y Gynhadledd am 10.30 Cyfarfod y prynhawm am 1.30

**DIOLCH YN FAWR**  
 Diolch i Beti-Wyn, Lowri Davies a'n Gwesteion arbennig am y lluniau'r mis hwn.

**DATHLU GŴYL DEWI**  
 Dyddiad i'w Gadarnhau



## DYLETSWYDDAU



## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



| Rhagfyr      |             | Ionawr       |              |
|--------------|-------------|--------------|--------------|
| Gofalwr      | Gwresogwr   | Gofalwr      | Gwresogwr    |
| Dennis Jones | Huw Michael | Alun Charles | Adrian Evans |



## BLODAU



| Rhagfyr | 4  |              | Ionawr | 1  | Catrin H Jones |
|---------|----|--------------|--------|----|----------------|
|         | 11 |              |        | 8  |                |
|         | 18 |              |        | 15 | Janet Davies   |
|         | 25 | Dydd Nadolig |        | 22 |                |
|         |    |              |        | 29 | Glenys Thomas  |



## PARATOI'R BWRDD CYMUN



|         |   |      |                                     |
|---------|---|------|-------------------------------------|
| Rhagfyr | 4 | Bore | Catrin Mair Jones ac Alison Parsons |
| Ionawr  | 1 | Bore | Alison Parsons a Ffion Parsons      |



## DARLLENWYR



|         |    |               |        |    |                   |
|---------|----|---------------|--------|----|-------------------|
| Rhagfyr | 4  | Meinir Jones  | Ionawr | 1  | Oedfa Deulu       |
|         | 11 | Oedfa Nadolig |        | 8  | Y Plant           |
|         | 18 | Alun Charles  |        | 15 | Elinor W Reynolds |
|         | 25 | Y Bobl Ifainc |        | 22 | Elis Jones        |
|         |    |               |        | 29 | Catrin H Jones    |



## CYHOEDDWYR



|         |                   |        |             |
|---------|-------------------|--------|-------------|
| Rhagfyr | Elinor W Reynolds | Ionawr | Jayne Woods |
|---------|-------------------|--------|-------------|





**DYMUWNN** yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn y mis hwn am Christine Davies, June Thomas a Dan Evans. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Buom yn dathlu pen-blwydd S4C yn 40 oed yn ddiweddar ac mae'n siŵr bod amryw wedi gwyllo ailddarllediad o'r ddrama ddogfen ar y sianel yn portreadu blwyddyn dyngedfennol ym mywyd y gwleidydd Gwynfor Evans ac yn hanes darlledu yng Nghymru. Y sgriptiwr oedd T James Jones a chymerodd Peter Hughes Griffiths ran ynddi a chlywyd Sulwyn Thomas yn cyfwrdd â Gwynfor Evans.

Mae cyfres **Ar Blât** ar **Golwg 360** yn trafod bywyd gyda rhai o wynebau cyfarwydd Cymru. Y bardd, y dramodydd, y colofnydd a'r golygydd Menna Elfyn yw un ohonynt. Meddai wrth sôn am ei hatgof cyntaf o fwyd:



*Mae'n debyg mai jeli coch ydy fy atgof cyntaf o fwyd. Bob tro y gwelwn jeli coch roedd fy meddwl yn troi fel jeli. Am flynyddoedd doeddwn i ddim yn deall pam ond dywedodd fy mam wrthyf mai dyna a gawn yn gyson yn ysbyty Cas-gwent pan oeddwn yn byw yno am yn agos i dair blynedd yn cael llawdriniaethau di-ri ar nam geni ar fy moch (o ddeunaw mis oed nes ow'n i'n dair a hanner).*

Ac yna'r Pwdin Dolig:

*Roeddwn ar un adeg yn ceisio gwneud rhyw bethau clyfar wrth goginio ond yn amlach na pheidio fe ddylwn wedi eu gadael yn y llyfrau coginio. Dyna i chi'r gacen Nadolig wnes i – i'm chwaer a nhad un Nadolig a rhoi potel gyfan o rym gyda'r cynhwysion oll. Sai'n siŵr a wnaethon nhw sobri am ddyddiau wedyn – ac roedd fy nhad yn ddirwestwr! Dyna'r gacen olaf i mi ei gwneud iddyn nhw er mae gen i awydd ceisio eto eleni gyda'r teulu. Cawn weld. Lwc owt!*

Wel, gwell lwc gyda'r Pwdin y tro hwn, Menna!

Mae'r rhain yn ddyddiau pwysig yn hanes **Radio Glangwili!** Bydd y Radio'n dathlu hanner can mlynedd o ddarlledu ar Ddydd Nadolig eleni. Bu Sulwyn Thomas, sydd wedi bod yn rhan allweddol o dîm hynod o weithgar yn gwasanaethu'r Radio'n wirfoddol dros flynyddoedd maith, yn sôn am y dathlu ar **Raglen Siân Cothi** ar **Radio Cymru**. Mae sawl digwyddiad i nodi'r achlysur yn cynnwys aduniad yn Hwb Menter Ffocws Caerfyrddin (ger Vodaphone yn y dref) ar 10 Rhagfyr a rhaglen ar **Radio Cymru** ar 18 Rhagfyr. Yn ogystal, mae llyfryn yn cael ei gyhoeddi i'w ddosbarthu o gwmpas yr ysbyty

ac ymhlith cyfeillion sy'n cynnwys cyfarchion a hanesion diddorol. Bydd edrych ymlaen yn ogystal at gân newydd gan Steffan Rhys Williams y bu ei dad-cu, Gerwyn Griffiths, mor amlwg ymhlith y gwirfoddolwyr cynnar. Pob dymuniad da i'r holl weithgarwch ac i'r Radio pwysig hwn i'r dyfodol

Mae'r rhifyn diweddaraf o **Cristion (Tachwedd / Rhagfyr 2022)** yn llawn cyfraniadau diddorol ac amrywiol gan gynnwys *Munud i Feddwl* gan Elin Wyn James sy'n cymryd *Goleuadau'r Nadolig yn Llundain* yn thema ac yn dangos mor bwysig yw golau a'l arwyddocâd i ni Gristnogion.

Llongyfarchiadau i Siwan Jones ar ennill cystadleuaeth Cynllunio Caerfyrddin. Derbyniodd ei gwobr gan Faer Tref Caerfyrddin, y Cynghorydd Miriam Moules.

Da gweld bod Eisteddfod y Rhondda wedi aildechrau ar ôl cyfnod o dawelwch yn ystod Covid-19. Cafwyd gair â'r beirniad llên a llefaru, Tudur Dylan Jones, ar **Heno** ar **S4C**. A phrifardd yr Eisteddfod a gynhaliwyd yn Nhreorci oedd Aled Evans. Llongyfarchiadau iddo yntau ar gipio'r Gadair. Hyfryd oedd gweld digon o fwrlwm yn yr eisteddfod hon a hynny'n argoeli'n dda ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024 sydd i'w chynnal yn Rhondda Cynon Taf.

Lansiwyd dwy gyfrol yn ystod y mis, sef **Anwyddoldeb**, y casgliad cyntaf o farddoniaeth gan Elinor Wyn Reynolds a chyfrol i ddatlu 30 o flynyddoedd o fodolaeth yr Ysgol Farddol, sef **Ar nos Fercher arferol** wedi'i pharatoi ar y cyd gan Tudur Dylan Jones, Mererid Hopwood, Aled Evans a Geraint Roberts. Cyfrolau gwerth eu cael,

**I GLOI**, llongyfarchiadau mawr i Tom a Finerty (Penlanffos) ar enedigaeth eu merch Lyla Jane, yn Ysbyty Glangwili ar 26 Hydref 2022, wyres gyntaf i Rachael a Geraint a'r orwyres gyntaf i Non Davies. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ionawr i'n  
Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Mair Walker ar goll'i mab, Robert Glyndwr Walker, Durham, ar 1 Tachwedd 2022. Meddyliwn am ei briod a'i blant a'i chwaer, Elin, a'r teulu cyfan, yn eu hiraeth a'u galar. Cofiw'n yn annwyl ac yn werthfawrogol iawn hefyd am gyfraniad Mair a'i diweddar wr, Y Parchedig Glyndwr Walker a'r teulu yn y Priordy a'r cylch dros flynyddoedd lawer.



# Y SULLADUR



|                           |           |                        |                                                                                                                                                                                                 |          |
|---------------------------|-----------|------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|
| <b>Rhagfyr</b>            | <b>4</b>  | <b>Bore<br/>Hwyr</b>   | Ein Gweinidog<br>Gwasanaeth Pobl Ifainc y Priordy (PIP) dan olau<br>cannwyll am 5 o'r gloch<br>Casgliad rhydd at Ganolfan Galw-i-Mewn Eglwys<br>y Bedyddwyr Saesneg                             | <b>C</b> |
|                           | <b>11</b> | <b>P'nawn<br/>Hwyr</b> | Oedfa Nadolig y Priordy am 3 o'r gloch<br>Casgliad at yr Ysgol Sul. Casgliad olaf er<br>cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn<br>Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn y<br>Priordy am 7.30 o'r gloch |          |
|                           | <b>18</b> | <b>Bore<br/>Hwyr</b>   | Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 10.<br>Gorymdaith Nadolig drwy bentref Bancyfelin am 6<br>o'r gloch, oedfa a phaned i ddilyn                                                                   |          |
| <b>Noswyl<br/>Nadolig</b> | <b>24</b> | <b>Hwyr</b>            | Epilog dros Zoom am 9 o'r gloch gyda'n<br>Gweinidog                                                                                                                                             |          |
| <b>Bore<br/>Nadolig</b>   | <b>25</b> | <b>Bore</b>            | Oedfa Deulu i'r Ofalaeth yn y Priordy am 9 y bore                                                                                                                                               |          |

|               |           |                      |                                                                                                                                                                 |          |
|---------------|-----------|----------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|
| <b>Ionawr</b> | <b>1</b>  | <b>Bore</b>          | Oedfa Deulu ar gyfer yr Ofalaeth yn y Priordy                                                                                                                   | <b>C</b> |
|               | <b>8</b>  | <b>Bore</b>          | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog                                                                                                                                    |          |
|               | <b>15</b> | <b>Bore</b>          | Y Parchedig Aled Edwards                                                                                                                                        |          |
|               | <b>22</b> | <b>Bore<br/>Hwyr</b> | Ein Gweinidog<br>Cynhelir Cwrdd Eglwys wedi'r oedfa<br>Oedfa dan nawdd Cytûn yn Eglwys Tywi am 5 'r<br>gloch ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod<br>Cristnogol |          |
|               | <b>29</b> | <b>Bore</b>          | Ein Gweinidog                                                                                                                                                   |          |

**Bore Sul 11 Rhagfyr – Ymarfer ar gyfer yr Oedfa Nadolig am 10 y bore**

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC                                                                                                                                      |                   |    |    |        |    |    |    |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|----|----|--------|----|----|----|----|
| ✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant<br>OD – Oedfa Deulu YM – Ymarfer Gwasanaeth Nadolig (Bore) GN – Gwasanaeth Nadolig (P'nawn) |                   |    |    |        |    |    |    |    |
| Rhagfyr                                                                                                                                                              |                   |    |    | Ionawr |    |    |    |    |
| 4                                                                                                                                                                    | 11                | 18 | 25 | 1      | 8  | 15 | 22 | 29 |
| ✓                                                                                                                                                                    | YM (AM) / GN (PM) | -  | OD | OD     | CP | ✓  | ✓  | ✓  |

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanyysu  
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**